



Addasiadau rhesymol ar gyfer polisi defnyddwyr gwasanaeth

Mehfin 2024

Addasiadau rhesymol ar gyfer polisi defnyddwyr gwasanaeth

Ein hymrwymiad a'n hymagwedd at ddarparu addasiadau rhesymol ar gyfer ein defnyddwyr gwasanaeth

Pwrpas

Mae gan SAYH ddyletswydd gyfreithiol o dan *Ddeddf Cydraddoldeb 2010* i sicrhau bod y gwasanaethau a gynigiwn yn gynhwysol ac yn hygyrch. Rydym yn cydnabod bod yn rhaid i ni gymryd camau rhesymol i sicrhau bod pob defnyddiwr gwasanaeth, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchoddedig, yn gallu defnyddio ein gwasanaethau.

Pwrpas y polisi hwn yw amlinellu'r broses ar gyfer gwneud addasiadau rhesymol, a dileu neu leihau effaith unrhyw rwystrau a allai greu anfantais i bobl ag anableddau a/neu anghenion ychwanegol.

Nid yw'r polisi hwn yn ceisio esbonio sut y byddwn yn ymdrin â phob sefyllfa. Y bwriad yw cadarnhau ein hymrwymiad i wella hygyrchedd i bawb y byddwn yn dod i gysylltiad â nhw. Mae hefyd yn nodi'r ffactorau rydym yn eu hystyried wrth ymdrin â cheisiadau am addasiadau rhesymol. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl ddefnyddwyr gwasanaeth SAYH ac mae'n cyd-fynd â'n [Safonau Gwasanaeth](#).

Beth yw addasiad rhesymol?

Mae addasiad rhesymol yn golygu newid y ffordd rydym fel arfer yn gwneud pethau i sicrhau bod SAYH yn hygyrch i bob un o'n defnyddwyr gwasanaeth. Er enghraifft, gallai hyn olygu darparu gwybodaeth mewn fformat gwahanol, neu gyfathrebu â defnyddiwr gwasanaeth trwy eu cynrychiolydd neu eiriolwr.

Ni fyddwn yn rhagdybio os oes angen unrhyw addasiadau ar berson anabl nac ynghylch beth ddylai'r addasiadau hynny fod. Byddwn yn trafod y gofynion â'r unigolyn dan sylw ac yn ceisio dod i gytundeb ar yr hyn a all fod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

Gofyn am addasiadau rhesymol

Bydd SAYH yn rhoi gwybod i bobl y gallwn ddarparu addasiadau rhesymol drwy:

- gyhoeddi'r polisi hwn a'n [Safonau Gwasanaeth](#) ar ein gwefan
- lle mae'n briodol, gofyn i'n defnyddwyr gwasanaeth os oes ganddynt anabledd ac os gallai fod angen unrhyw addasiadau arnynt yn ystod ein cyswllt â nhw

- darparu dogfennau mewn fformat arall ar gais. gweithio gyda grwpiau cynrychioliadol allweddol ac eraill i godi ymwybyddiaeth o'r polisi hwn a chael gwell dealltwriaeth o'r hyn a allai fod yn ddefnyddiol
- gan gynnwys nodyn clir ar gofnodion perthnasol sy'n rhybuddio cydweithwyr am addasiadau rhesymol y cytunwyd arnynt.

Mathau o addasiadau rhesymol y gallwn eu cynnig

Byddwn yn ystyried pob cais am addasiadau rhesymol yn unigol. Byddwn yn gallu gwneud rhai addasiadau ar unwaith, tra bydd angen ystyried a threfnu eraill.

Byddwn bob amser yn cytuno ar yr addasiadau â'r unigolyn dan sylw i osgoi gwneud rhagdybiaethau anghywir am anghenion unigolyn. Mae rhai enghreifftiau o addasiadau rhesymol syml y gall cydweithwyr eu gwneud yn cynnwys:

- darparu dogfennau mewn maint ffont mwy
- darparu dogfennau ar bapur lliw neu â chyferbyniad lliw penodol, a all helpu pobl â chyflyrau fel dyslecsia
- caniatáu mwy o amser i unigolyn sydd ag anabledd dysgu neu sy'n profi iechyd meddwl gwael ddarparu rhagor o wybodaeth - ac eithrio lle mae terfyn amser cyfreithiol nad oes gennym unrhyw bŵer i'w newid
- defnyddio e-bost neu'r ffôn yn hytrach na llythyrau copi caled lle mae'n briodol
- cynnig mwy o amser i helpu rhywun i ddeall ein prosesau a'n gweithdrefnau
- defnyddio iaith eglur, blaen sy'n briodol i'r unigolyn rydym yn delio ag ef/hi, ac osgoi jargon

Mae rhai trefniadau eraill y gallwn eu darparu yn cynnwys:

- cyfieithu dogfennau neu ohebiaeth i Braille
- cyfathrebu â phobl trwy eu cynrychiolydd neu eiriolwr, os gofynnir am hynny ac yn cael ei gymeradwyo ganddynt, fel y cyfeirir ato yn *Neddf Galluedd Meddyliol 2005*
- helpu rhywun sy'n profi iechyd meddwl gwael i ddeall a rheoli'r camau rydym yn eu cymryd drwy drefnu un pwynt cyswllt o fewn SAYH
- darparu mynediad i wasanaeth 'Hawdd i'w ddarllen' i'r rhai ag anabledd dysgu

Efallai y bydd angen ystyriaeth fanylach ar rai deisiadau a byddwn yn trafod y rhain â'r defnyddiwr gwasanaeth yn unigol. Os gall gymryd peth amser i wneud penderfyniad neu gyflwyno addasiad rhesymol, byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r unigolyn.

Cwynion am ein gwasanaeth

Mae SAYH wedi ymrwmo i ddarparu safon uchel o wasanaeth, gan weithio gyda'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth mewn ffordd sy'n deg ac yn rhydd rhag gwahaniaethu.

Os ydych yn anfodlon â'r trefniadau rydym wedi'u gwneud ar gyfer darparu addasiadau rhesymol, gallwch [wneud cwyn](#). Byddwn yn ymateb yn unol â'n [polisi Cwynion ac adborth](#).

Mae rhagor o wybodaeth am ein Safonau Gwasanaeth ar gael [ar ein gwefan](#).

Cyhoeddwyd Mehefin 2024

© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (2024)



Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai lle nodir yn wahanol.

Nid yw hyn yn cynnwys deunydd ar y wefan hon fel deunydd sy'n perthyn i drydydd partion. Rhaid cael caniatâd i ddefnyddio deunydd o'r fath gan ddeiliaid yr hawffraint dan sylw.

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith neu i ofyn am yr adroddiad hwn mewn fformat arall, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (SAYH)
10 South Colonnade Canary Wharf Llundain E14 4PU

Tel: **0300 020 0096**

E-bost:

enquiries@policeconduct.gov.uk

Gwefan: www.policeconduct.gov.uk

Neges destun: **18001 020 8104 1220**

We welcome telephone calls in Welsh
Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg

